



PROSIECTAU MENTER

MENTRAU LLWYDDIANNUS >

Cynllun y sesiwn



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

CIPOLWGW >

Mae'r sesiwn yma'n cyflwyno'r termau 'menter' ac 'entrepreneur' i'r dysgwyr. Byddan nhw'n ymchwilio i wahanol fentrau llwyddiannus, ac yn gallu egluro'r rhesymau pam mae mentrau penodol yn llwyddiannus. Y sesiwn yma ydy'r gyntaf yn yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter', ac mae'n rhoi'r cefndir sydd ei angen ar y dysgwyr i ddatblygu a chyflawni eu prosiectau menter eu hunain yn y sesiynau canlynol.



CYSYLLTIADAU A'R GWRICWLWM

- ✓ Menter (Cymru)



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A RHIFEDD

- ✓ Dysgu a defnyddio termau menter pwysig
- ✓ Ysgrifennu neu gyflwyno pennod am fenter llwyddiannus



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Mentrau llwyddiannus
- ✓ Taflen waith Ffactorau llwyddiant
- ✓ Mynediad i'r rhyngwyd (o ddewis)
- ✓ Taflen waith Ymchwilio i fenter (dewisol)
- ✓ Adnoddau i greu pennod (edrychwch ar dudalen 7)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWESTERAU

- ✓ Cyflawni Prosiect Menter – Deiliant Dysgu: Deall agweddau menter llwyddiannus

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Enwi nodweddion menter llwyddiannus
- ✓ Rhoi enghreifftiau o fentrau llwyddiannus
- ✓ Egluro pam mae menter yn llwyddiannus

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Cyflwyniad</u>	10 munud	<u>03</u>
<u>Deall mentrau</u>	15 munud	<u>05</u>
<u>Beth sy'n gwneud menter yn llwyddiant?</u>	10-15 munud	<u>06</u>
<u>Archwilio menter</u>	Yn dibynnu	<u>07</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	5 munud	<u>09</u>



CYFLWYNIAD



AMSER

10 munud



DEJYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Mentrau Llwyddiannus

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Cyflwynwch y dysgwyr i'r sesiwn drwy egluro y byddwch chi'n ystyried beth ydy mentrau llwyddiannus. Peidiwch ag egluro unrhyw beth arall – yn hytrach na gwneud hynny, symudwch ymlaen i'r cam nesaf.
2. Dangoswch y ddau lun ar sleid 2 y cyflwyniad 'Mentrau Llwyddiannus' i'r dysgwyr (sylwer: os nad oes gennych chi gyfrifiadur, gallech argraffu'r sleid yma er mwyn i bob dysgwr allu gweld un). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod mewn grwpiau bach neu barau a ydyn nhw'n gwybod pwy ydy'r person, neu ar gyfer beth mae'r logo.
3. Ar ôl ychydig funudau, anogwch y dysgwyr i rannu â'r grŵp ehangach pwy maen nhw'n meddwl ydy'r person, neu beth mae'r logo'n ei gynrychioli.

Atebion cywir:

- Oprah Winfrey
- Adidas

4. Eglurwch fod Adidas yn fenter sy'n gwerthu dillad chwaraeon, a bod Oprah, yn ogystal â bod yn gyflwynydd teledu enwog, hefyd yn entrepreneur sydd wedi rhedeg nifer o gwmnïau, gan gynnwys cwmnïau teledu a ffilmiau, cylchgrawn a chyfres o nwyddau cartref.

Gofynnwch a oes unrhyw un yn gwybod beth ydy ystyr 'menter' neu 'entrepreneur', cyn rhannu'r diffiniadau isod (maen nhw hefyd yn ymddangos ar sleid 3 y cyflwyniad 'Mentrau Llwyddiannus').

- Busnes ydy menter i bob pwrpas; mae'r gair wedi datblygu o'r gair Lladin am 'gymryd'; ystyr y gair Cymraeg modern yn y bôn ydy gweithred feiddgar.
- Mae entrepreneur yn rhywun sydd â'r syniadau, y sgiliau, y gallu i gymryd risg a'r brwdfrydedd i sefydlu a chynnal busnes llwyddiannus.



Prince's Trust

START
SOMETHING

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Dylech ysbrydoli'r dysgwyr drwy egluro y gall entrepreneuriaid fod o unrhyw oed ac o unrhyw gefndir. Gallech rannu rhai o straeon y bobl ifanc sydd wedi cael cefnogaeth gan Prince's Trust i redeg eu busnesau eu hunain.

- Jack Lambourn sy'n rhedeg ei glwb gymnasteg llwyddiannus ei hun:: <https://www.princes-trust.org.uk/about-the-trust/success-stories/jack-lambourn>
- Patrice Nyarko sy'n rhedeg ei glwb gymnasteg llwyddiannus ei hun: <https://www.princes-trust.org.uk/about-the-trust/success-stories/success-story-patrice-nyarko>
- Cora Laffey sy'n rhedeg ei busnes hyfforddiant personol ei hun: <https://www.princes-trust.org.uk/about-the-trust/success-stories/cora-laffey>
- Jazmin a sefydlodd ei brand dillad maint mwy ei hun (sylwer: mae'r fideo yma'n cynnwys pynciau sensitif): https://www.youtube.com/watch?v=TfC_TMle45A

Mae'r erthygl yma gan Forbes yn rhoi sylw i 25 o entrepreneuriaid Du Prydeinig blaenllaw:

- <https://www.forbes.com/sites/tommywilliams1/2020/07/01/meet-25-leading-black-british-business-people-to-follow/?sh=4ff85b5a5a5>

Mae'r erthygl yma'n rhoi sylw i 50 o fenywod o Brydain sy'n entrepreneuriaid:

- <https://www.beauhurst.com/blog/female-entrepreneurs-to-watch/>



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

DEALL MENTRAU >



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Papur a beiros
- ✓ Bwrdd gwyn/Siart troi

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Fel un grŵp mawr, ceisiwch feddwl am ragor o enghreifftiau o fentrau. Gallech gofnodi syniadau'r dysgwyr ar fwrdd gwyn neu siart troi.

Atebion posibl:

- Mentrau mawr: Ben and Jerry's, Apple, Meta, JD Sports
- Mentrau llai: Anogwch y dysgwyr i feddwl am fusnesau yn eich ardal leol, oherwydd mae'r rheini'n cyfrif fel mentrau hefyd!

2. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach neu'n barau. Gallant naill ai ddewis un o'r mentrau rydych chi wedi'u rhestru ar y bwrdd gwyn/siart troi, neu gallwch chi roi un iddyn nhw. Gwnewch yn siŵr bod y mentrau a ddewisir yn rhai llwyddiannus.

Ar ddarn o bapur, dylai pob grŵp greu ei fap meddwl ei hun ar gyfer eu menter, ac ysgrifennu popeth maen nhw'n ei wybod am y fenter – er enghraifft, beth mae'n ei werthu neu'n ei wneud, pam mae pobl yn ei hoffi, pwy sy'n rhedeg y fenter, pam mae'n llwyddiannus ac ati.

3. Ar ôl ryw 4-5 munud, anogwch y grwpiau i adrodd yn ôl ar eu syniadau. Ceisiwch gael pob grŵp sy'n adrodd yn ôl i esbonio pam maen nhw'n meddwl bod y fenter roedden nhw wedi'i thrafod yn un lwyddiannus. Efallai y byddwch chi am gofnodi'r syniadau hyn ar fwrdd gwyn neu siart troi.

Mae ychydig o gwestiynau cynorthwyol wedi'u rhestru isod:

- Ydy'r fenter yn darparu cynnyrch neu wasanaeth o ansawdd da neu unigryw?
- Ydy pobl yn hoffi Prif Weithredwr/perchennog y fenter?
- Ydy'r fenter yn hysbysebu/marchnata'n gyson neu'n effeithiol?
- Ydy cynnyrch neu wasanaeth y fenter yn rhatach nag eraill?



Prince's Trust

START
SOMETHING

BETH SY’N GWNEUD MENTER YN LL- WYDDIANT?



AMSER

10-15 munud



DEUNYDDIAU

✓ Taflen waith Ffactorau
llwyddiant

CAMAU’R GWEITHGAREDD

1. Dewiswch un neu ddau o’r rhesymau roeddech wedi’u nodi yn y gweithgaredd diwethaf i egluro pam mae mentrau’n llwyddiannus. Eglurwch i’r dysgwyr beth ydy’r termau arferol a ddefnyddir ar gyfer y ffactorau a ddewiswyd – er enghraifft, os mai un rheswm oedd bod gan fenter negeseuon poblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol, gallech egluro bod hyn yn rhan o ‘farchnata’.
2. Mae angen i chi adeiladu ar gyfeiriadau at dermau penodol ar gyfer menter a busnes drwy roi’r daflen waith ‘Ffactorau llwyddiant’ i bob grŵp neu ddysgwyr. Eglurwch fod y daflen waith yn rhestru llawer o’r ffactorau y mae eu hangen ar fentrau er mwyn llwyddo.

Gan ddibynnu ar eich dysgwyr, gallech ddarllen y ffactorau a’u diffiniadau fel grŵp, neu gallent wneud hyn ar eu pen eu hunain. Wrth i chi/iddyn nhw ddarllen y daflen, dylech eu hannog i uwchleuo unrhyw ffactorau maen nhw’n meddwl sydd gan eu menter a ddewiswyd yn y gweithgaredd blaenorol.

3. Rhowch funud neu ddau i’r dysgwyr drafod â’u partner/grŵp pa ffactorau roedden nhw wedi’u huwchleuo, ac i sicrhau eu bod i gyd yn cytuno ar y ffactorau a ddewiswyd.

Dylech wahodd y dysgwyr i rannu eu barn â gweddill y grŵp. Defnyddiwch hyn fel cyfle i weld a ydy’r dysgwyr yn deall y termau, ac i gywiro unrhyw gamddealltwriaeth.



Prince's Trust

START
SOMETHING

ARCHWILIO MENTER

Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu i ddangos eu dealltwriaeth o'r deilliant dysgu 'Deall agweddau ar fenter llwyddiannus' yn yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter'. Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel Mynediad 3/Lefel 3 SCQF, yr unig beth y mae angen iddyn nhw ei wneud ydy enwi nodweddion menter llwyddiannus.



AMSER

Yn dibynnu (Awr neu ddwy, gan ddibynnu ar faint y grŵp a'r gweithgareddau a ddevisir)



DEUNYDDIAU

- ✓ Mynediad i'r rhyngrwyd (o ddewis)
- ✓ Cyflwyniad Mentrau llwyddiannus
- ✓ Taflen waith Ymchwilio i fenter (dewisol)
- ✓ Adnoddau i greu pennod (ee, beiros a phapur, offer recordio)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodweddion menter llwyddiannus
- ✓ Enghraifft neu enghreifftiau o fenter neu fentrau llwyddiannus
- ✓ Egluro pam mae menter neu fentrau yn llwyddiannus

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dywedwch wrth y dysgwyr fod sianel YouTube newydd o'r enw 'Archwilio Menter' yn cael ei lansio. Mae pob fideo yn edrych ar fenter wahanol, ac yn ceisio canfod ac esbonio pam ei bod yn llwyddiannus. Mae'r sianel wedi'i hanelu at bobl ifanc sydd â diddordeb mewn bod yn entrepreneuriaid. Pwrpas y sianel ydy eu hysbrydoli a'u haddysgu am fenter a sut mae llwyddo.

Sylwer: Sianel YouTube ffuglennol at ddibenion y gweithgaredd yma ydy 'Archwilio Menter'.

2. Mae'r dysgwyr, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau bach (gallent fod yr un grwpiau a fu'n gynharach yn y sesiwn), wedi cael y dasg o ysgrifennu a chyfarwyddo un neu ddwy (dwy os ydy'r dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF) o benodau ar gyfer 'Archwilio Menter'.

Eglurwch i'r dysgwyr mai'r peth cyntaf mae angen iddyn nhw ei wneud ydy dewis i ba fenter neu fentrau maen nhw am greu pennod neu benodau. Gallent fod yr un mentrau a ddewiswyd yn gynharach yn y sesiwn, neu gallent ddewis rhai newydd. Mae rhestr o fentrau posibl wedi'i nodi yn y cyflwyniad 'Mentrau llwyddiannus'.

3. Ar ôl i'r dysgwyr ddewis eu mentrau, bydd angen iddyn nhw ddechrau ymchwilio a pharatoi ar gyfer eu pennod neu benodau.

Gallent ddefnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio i'r elfennau sydd wedi'u rhestru ar y dudalen nesaf, neu os nad oes modd i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd, gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn dewis un o'r mentrau sydd wedi'u rhestru yn y cyflwyniad ac argraffwch rywfaint o wybodaeth cyn y sesiwn (mae dolenni i wefannau perthnasol hefyd wedi'u nodi ar y cyflwyniad). Mae taflen waith ddewisol ar gael hefyd, sef 'Ymchwilio i fenter', y gallai'r dysgwyr ei llenwi wrth iddyn nhw ymchwilio.



Mae angen cynnwys y canlynol yn y bennod neu'r penodau:

- Enw'r fenter
- Beth mae'r fenter yn ei werthu/ei gynnig (cynnyrch neu wasanaeth)
- Enw'r perchennog/Prif Weithredwr, ac unrhyw wybodaeth gefndirol berthnasol
- Sut dechreuodd y fenter
- Y rhesymau pam mae'r fenter yn un lwyddiannus (cyfeiriwch y dysgwyr at y daflen waith 'Ffactorau llwyddiant' o'r gweithgaredd diwethaf)
- Beth mae pobl ifanc sy'n awyddus i fod yn entrepreneuriaid yn gallu ei ddysgu o'r fenter

Sylwer: mae'r pwyntiau uchod hefyd wedi'u nodi ar y cyflwyniad 'Menter lwyddiannus'.

4. Dywedwch wrth y dysgwyr fod ganddyn nhw yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw ar gyfer eu pennod neu benodau, a bod angen iddyn nhw ddechrau ar y gwaith creu.

Gall y dysgwyr greu eu penodau mewn nifer o ffyrdd. Dyma rai awgrymiadau:

- Gallai'r dysgwyr ysgrifennu sgript ar gyfer eu pennod neu benodau. Gallent hefyd ei darllen yn uchel a'i chyflwyno i weddill y grŵp
- Gallai'r dysgwyr greu bwrdd stori, a allai gynnwys elfennau gweledol ar gyfer pob prif ran o'r bennod, ochr yn ochr â thestun a fyddai'n cael ei ddarllen yn uchel
- Gallai'r dysgwyr wneud recordiad sain neu fideo o'u pennod neu benodau – os byddwch chi'n dewis yr opsiwn yma, gwnewch yn siŵr bod gennych chi'r offer a'r caniatâd priodol gan rieni/gwarcheidwaid.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Os oes gennych chi amser, ac os byddai'ch dysgwyr yn elwa neu'n mwynhau, gallai'r grwpiau gyflwyno eu penodau i weddill y dysgwyr neu i bobl eraill yn eich lleoliad.



DIRWYN I BEN >




AMSER

5 munud

CAMAU'R GWETHGAREDD >

1. Gofynnwch i'r grŵp beth maen nhw wedi'i ddysgu yn y sesiwn heddiw. Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall y termau 'menter' ac 'entrepreneur', a beth sy'n gwneud menter yn un lwyddiannus.
2. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dechrau datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer menter yn y sesiwn nesaf. Gallech ofyn a oes gan unrhyw un syniadau cychwynnol y maen nhw'n edrych ymlaen at eu datblygu.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**